



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2021 Rhif 1113 (Cy. 268)**

**2021 No. 1113 (W. 268)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol  
Wrecsam (Trefniadau Etholiadol)  
2021

The County Borough of Wrexham  
(Electoral Arrangements) Order  
2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Tachwedd 2020 ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd Adroddiad y Comisiwn yn cynnig cynyddu nifer y wardiau etholiadol, o 47 i 49, a chynyddu nifer y cynghorwyr o 52 i 56.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, gydag addasiadau.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gweithredu argymhellion ynghylch newidiadau i ffiniau cymunedol a newidiadau i drefniadau etholiadol ar gyfer rhai cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae erthygl 4 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Acre-fair a Phen-y-bryn, Cefn, Plas Madog, a Rhosymedre a Chefn Bychan yng nghymuned Cefn. Mae erthygl 5 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Acre-fair a Phen-y-bryn, Cefn, a Rhosymedre a Chefn Bychan o gymuned Cefn.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order implements the recommendations of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission"), which reported in November 2020 on its review of the electoral arrangements for the County Borough of Wrexham. The Commission's Report proposed an increase in the number of electoral wards, from 47 to 49, and an increase in the number of councillors from 52 to 56.

This Order implements the Commission's recommendations, with modifications.

Article 3 of this Order abolishes the existing electoral arrangements for the County Borough of Wrexham and introduces the Schedule, which sets out the new electoral arrangements for the County Borough of Wrexham.

This Order also implements recommendations for changes to community boundaries and changes to the electoral arrangements for some communities within the County Borough of Wrexham.

Article 4 makes changes to the boundaries between the community wards of Acrefair and Penybryn, Cefn, Plas Madoc, and Rhosymedre and Cefn Bychan within the community of Cefn. Article 5 sets out the number of members to be elected for the Acrefair and Penybryn, Cefn, and Rhosymedre and Cefn Bychan wards of the community of Cefn.

Mae erthygl 6 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng nghymuned Rhosllannerchrugog. Mae erthygl 7 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Johnstown, De Ponciau a Rhos o gymuned Rhosllannerchrugog.

Mae erthygl 8 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Bryn-teg, Bryn Cefn, New Broughton a Gwenfro yng nghymuned Broughton. Mae erthygl 9 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Bryn Cefn, Bryn-teg a Gwenfro o gymuned Broughton.

Mae erthygl 10 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol De Gwersyllt a Dwyrain Gwersyllt yng nghymuned Gwersyllt. Mae erthygl 11 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Dwyrain Gwersyllt, De Gwersyllt a Gorllewin Gwersyllt o gymuned Gwersyllt.

Mae erthygl 12 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Whitegate, Smithfield a Wynnstey yng nghymuned Parc Caia. Mae erthygl 13 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng cymunedau Abenbury a Pharc Caia. Mae erthygl 14 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Wynnstey o gymuned Parc Caia.

Mae erthygl 15 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Erddig, Offa, a Brynffynnon yng nghymuned Offa. Mae erthygl 16 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros wardiau Hermitage ac Offa o gymuned Offa.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "12" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol) a chyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.

Article 6 makes changes to the boundaries between the community wards of Ponciau North, Ponciau South and Rhos within the community of Rhosllannerchrugog. Article 7 sets out the number of members to be elected for the Johnstown, Ponciau South and Rhos wards of the community of Rhosllannerchrugog.

Article 8 makes changes to the boundaries between the community wards of Brynteg, Bryn Cefn, New Broughton and Gwenfro within the community of Broughton. Article 9 sets out the number of members to be elected for the Bryn Cefn, Brynteg and Gwenfro wards of the community of Broughton.

Article 10 makes changes to the boundaries between the community wards of Gwersyllt South and Gwersyllt East within the community of Gwersyllt. Article 11 sets out the number of members to be elected for the East, South and West wards of the community of Gwersyllt.

Article 12 makes changes to the boundaries between the community wards of Whitegate, Smithfield and Wynnstey within the community of Caia Park. Article 13 makes changes to the boundaries between the communities of Abenbury and Caia Park. Article 14 sets out the number of members to be elected for the Wynnstey ward of the community of Caia Park.

Article 15 makes changes to the boundaries between the community wards of Erddig, Offa, and Brynffynnon within the community of Offa. Article 16 sets out the number of members to be elected for the Hermitage and Offa wards of the community of Offa.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

Prints of the maps labelled "1" to "12" to which this Order relates are deposited in the office of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Local Government Democracy Division), and with Wrexham County Borough Council. Prints deposited with Wrexham County Borough Council are open to inspection by anyone affected by the provisions of this Order.

**2021 Rhif 1113 (Cy. 268)**

**2021 No. 1113 (W. 268)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**Gorchymyn Bwrdeistref Sirol  
Wrecsam (Trefniadau Etholiadol)  
2021**

**The County Borough of Wrexham  
(Electoral Arrangements) Order  
2021**

*Gwnaed* 4 Hydref 2021

*Made* 4 October 2021

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

*Coming into force in accordance with article  
1(2) and (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(1), yn unol ag adran 36(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(2) (“Deddf 2013”), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Tachwedd 2020 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales(1) has, in accordance with section 36(5) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013(2) (“the 2013 Act”), submitted to the Welsh Ministers a report dated November 2020 containing its recommendations for change and the details of its review of the electoral arrangements for the County Borough of Wrexham.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(a) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i’r argymhellion hynny gydag addasiadau.

The Welsh Ministers have, after consideration of the matters referred to and set out in section 37(2)(a) and (c) of the 2013 Act, decided to give effect to those recommendations with modifications.

Yn unol ag adran 37(3) o Ddeddf 2013, mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i’r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

In accordance with section 37(3) of the 2013 Act, more than 6 weeks have elapsed since those recommendations were submitted to the Welsh Ministers.

---

(1) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) (“Deddf 1972”) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) (“Deddf 2013”) ac Atodlen 2 iddi. Mae Deddf 2013 yn ailenwi’r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2).

(2) 2013 dccc 4.

---

(1) The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of, and Schedule 8 to, the Local Government Act 1972 (c. 70) (“the 1972 Act”). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) (“the 2013 Act”). The 2013 Act re-names the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2).

(2) 2013 anaw 4.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pwerau a roddir gan adran 37(1) o Ddeddf 2013.

## Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym drennydd y diwrnod y'i gwneir.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(1).

## Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Rheoliadau” (“*the Regulations*”) yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(2);

ystyr “ward etholiadol” (“*electoral ward*”) yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 12 o fapiau a farciwyd “Map ar gyfer Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Trefniadau Etholiadol) 2021” a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau ac a labelwyd “1” i “12”, ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

os dangosir ar fap bod ffin yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag a roddir iddynt yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of their powers conferred by section 37(1) of the 2013 Act.

## Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the County Borough of Wrexham (Electoral Arrangements) Order 2021.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on the second day after the day on which it is made.

(3) For all other purposes, this Order comes into force on the ordinary day of election of councillors in 2022(1).

## Interpretation

2. In this Order—

“electoral ward” (“*ward etholiadol*”) means any area for which members are elected to Wrexham County Borough Council;

“the Regulations” (“*y Rheoliadau*”) means the Local Government Area Changes Regulations 1976(2);

any reference to a map means one of the 12 maps marked “Map of the County Borough of Wrexham (Electoral Arrangements) Order 2021” deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations, labelled “1” to “12”, and a reference to a numbered map is a reference to the map that bears that number;

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature;

words and expressions used in this Order have the same meaning as they have in Part 3 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, except so far as a contrary intention appears.

---

(1) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

(2) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchymynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchymynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

---

(1) The Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) (Wales) Order 2019 (S.I. 2019/1269 (W. 220)) amends section 26(1) of the 1972 Act to provide that the year in which the ordinary elections of councillors of local authorities shall take place is 2022 instead of 2021.

(2) S.I. 1976/246. Section 74(3) of the 2013 Act provides that the Regulations continue to have effect in relation to orders made under Part 3 of the 2013 Act, as if those orders were made under Part 4 of the 1972 Act.

## **Trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

3.—(1) Mae wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

(2) Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ei rhannu'n 49 o wardiau etholiadol a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 y Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1).

## **Cymuned Cefn: newidiadau i wardiau cymunedol**

### **4. Yng nghymuned Cefn—**

- (a) mae'r rhan o ward Acre-fair a Phen-y-bryn a ddangosir â llinellau ar Fap 1 wedi ei throsglwyddo i ward Plas Madog;
- (b) mae'r rhan o ward Cefn a ddangosir â llinellau ar Fap 2 wedi ei throsglwyddo i ward Acre-fair a Phen-y-bryn;
- (c) mae'r rhan o ward Rhosymedre a Chefn Bychan a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 2 wedi ei throsglwyddo i ward Acre-fair a Phen-y-bryn.

## **Cymuned Cefn: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

### **5. Yng nghymuned Cefn—**

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Acre-fair a Phen-y-bryn yw 5;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Cefn yw 5;
- (c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Rhosymedre a Chefn Bychan yw 1.

## **Electoral arrangements for the County Borough of Wrexham**

3.—(1) The electoral wards of the County Borough of Wrexham, as they exist immediately before the ordinary day of election of councillors in 2022, are abolished.

(2) The County Borough of Wrexham is divided into 49 electoral wards each bearing the English language name listed in column 1 and the Welsh language name listed in column 2 of the Table in the Schedule to this Order.

(3) Each electoral ward comprises the areas specified in relation to that electoral ward in column 3 of the Table in the Schedule to this Order.

(4) The number of members of the council to be elected for each electoral ward is the number specified in column 4 of the Table in the Schedule to this Order.

(5) The provisions in this Order take precedence over any conflicting provision in any previous statutory instrument made under section 58(2) of the Local Government Act 1972(1).

## **The community of Cefn: changes to community wards**

### **4. In the community of Cefn—**

- (a) the part of the Acrefair and Penybryn ward shown hatched on Map 1 is transferred to the Plas Madoc ward;
- (b) the part of the Cefn ward shown hatched on Map 2 is transferred to the Acrefair and Penybryn ward;
- (c) the part of the Rhosymedre and Cefn Bychan ward shown cross-hatched on Map 2 is transferred to the Acrefair and Penybryn ward.

## **The community of Cefn: consequential changes to electoral arrangements**

### **5. In the community of Cefn—**

- (a) the number of members to be elected for the Acrefair and Penybryn ward is 5;
- (b) the number of members to be elected for the Cefn ward is 5;
- (c) the number of members to be elected for the Rhosymedre and Cefn Bychan ward is 1.

(1) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

(1) 1972 c. 70; section 58 of the 1972 Act was repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the 2013 Act, subject to savings provisions specified in section 74 of the 2013 Act.

**Cymuned Rhosllannerchrugog: newidiadau i wardiau cymunedol**

**6. Yng nghymuned Rhosllannerchrugog—**

- (a) mae'r rhan o ward Gogledd Ponciau a ddangosir â llinellau ar Fap 3 wedi ei throsglwyddo i ward Rhos;
- (b) mae'r rhan o ward De Ponciau a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 3 wedi ei throsglwyddo i ward Rhos.

**Cymuned Rhosllannerchrugog: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**7. Yng nghymuned Rhosllannerchrugog—**

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Johnstown yw 6;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward De Ponciau yw 2;
- (c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Rhos yw 4.

**Cymuned Broughton: newidiadau i wardiau cymunedol**

**8. Yng nghymuned Broughton—**

- (a) mae'r rhan o ward Bryn-teg a ddangosir â llinellau ar Fap 4 wedi ei throsglwyddo i ward Bryn Cefn;
- (b) mae'r rhan o ward Bryn-teg a ddangosir â llinellau ar Fap 5 wedi ei throsglwyddo i ward Gwenfro;
- (c) mae'r rhan o ward New Broughton a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 5 wedi ei throsglwyddo i ward Gwenfro.

**Cymuned Broughton: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**9. Yng nghymuned Broughton—**

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Bryn Cefn yw 5;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Bryn-teg yw 2;
- (c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Gwenfro yw 5.

**Cymuned Gwersyllt: newidiadau i wardiau cymunedol**

**10.** Mae'r rhan o ward De Gwersyllt o gymuned Gwersyllt a ddangosir â llinellau ar Fap 6 wedi ei throsglwyddo i ward Dwyrain Gwersyllt o gymuned Gwersyllt.

**The community of Rhosllannerchrugog: changes to community wards**

**6. In the community of Rhosllannerchrugog—**

- (a) the part of Ponciau North ward shown hatched on Map 3 is transferred to the Rhos ward;
- (b) the part of the Ponciau South ward shown cross-hatched on Map 3 is transferred to the Rhos ward.

**The community of Rhosllannerchrugog: consequential changes to electoral arrangements**

**7. In the community of Rhosllannerchrugog—**

- (a) the number of members to be elected for the Johnstown ward is 6;
- (b) the number of members to be elected for the Ponciau South ward is 2;
- (c) the number of members to be elected for the Rhos ward is 4.

**The community of Broughton: changes to community wards**

**8. In the community of Broughton—**

- (a) the part of the Brynteg ward shown hatched on Map 4 is transferred to the Bryn Cefn ward;
- (b) the part of the Brynteg ward shown hatched on Map 5 is transferred to the Gwenfro ward;
- (c) the part of the New Broughton ward shown cross-hatched on Map 5 is transferred to the Gwenfro ward.

**The community of Broughton: consequential changes to electoral arrangements**

**9. In the community of Broughton—**

- (a) the number of members to be elected for the Bryn Cefn ward is 5;
- (b) the number of members to be elected for the Brynteg ward is 2;
- (c) the number of members to be elected for the Gwenfro ward is 5.

**The community of Gwersyllt: changes to community wards**

**10.** The part of the Gwersyllt South ward of the community of Gwersyllt shown hatched on Map 6 is transferred to the Gwersyllt East ward of the community of Gwersyllt.

**Cymuned Gwersyllt: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**11. Yng nghymuned Gwersyllt—**

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Dwyrain Gwersyllt yw 4;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward De Gwersyllt yw 4;
- (c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Gorllewin Gwersyllt yw 5.

**Cymuned Parc Caia: newidiadau i wardiau cymunedol**

**12. Yng nghymuned Parc Caia—**

- (a) mae'r rhan o ward Whitegate a ddangosir â llinellau ar Fap 7 wedi ei throsglwyddo i ward Smithfield;
- (b) mae'r rhan o ward Smithfield a ddangosir â llinellau ar Fap 8 wedi ei throsglwyddo i ward Wynnstay.

**Cymunedau Abenbury a Pharc Caia: newidiadau i ffiniau cymunedol**

**13.** Mae'r rhan honno o gymuned Abenbury a ddangosir â llinellau ar Fap 9 wedi ei throsglwyddo i gymuned Parc Caia, ac mae'n ffurfio rhan o ward Whitegate o gymuned Parc Caia.

**Cymuned Parc Caia: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**14.** Nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Wynnstay o gymuned Parc Caia yw 3.

**Cymuned Offa: newidiadau i wardiau cymunedol**

**15. Yng nghymuned Offa—**

- (a) mae'r rhannau o ward Offa a ddangosir â llinellau ar Fap 10 wedi eu trosglwyddo i ward Erddig;
- (b) mae'r rhan o ward Brynyffynnon a ddangosir â llinellau ar Fap 11 wedi ei throsglwyddo i ward Offa;
- (c) mae'r rhan o ward Offa a ddangosir â llinellau ar Fap 12 wedi ei throsglwyddo i ward Brynyffynnon.

**Cymuned Offa: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**16. Yng nghymuned Offa—**

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Hermitage yw 4;

**The community of Gwersyllt: consequential changes to electoral arrangements**

**11. In the community of Gwersyllt—**

- (a) the number of members to be elected for the East ward is 4;
- (b) the number of members to be elected for the South ward is 4;
- (c) the number of members to be elected for the West ward is 5.

**The community of Caia Park: changes to community wards**

**12. In the community of Caia Park—**

- (a) the part of the Whitegate ward shown hatched on Map 7 is transferred to the Smithfield ward;
- (b) the part of the Smithfield ward shown hatched on Map 8 is transferred to the Wynnstay ward.

**The communities of Abenbury and Caia Park: changes to community boundaries**

**13.** That part of the community of Abenbury shown hatched on Map 9 is transferred to the community of Caia Park, and forms part of the Whitegate ward of the community of Caia Park.

**The community of Caia Park: consequential changes to electoral arrangements**

**14.** The number of members to be elected for the Wynnstay ward of the community of Caia Park is 3.

**The community of Offa: changes to community wards**

**15. In the community of Offa—**

- (a) the parts of the Offa ward shown hatched on Map 10 are transferred to the Erddig ward;
- (b) the part of the Brynyffynnon ward shown hatched on Map 11 is transferred to the Offa ward;
- (c) the part of the Offa ward shown hatched on Map 12 is transferred to the Brynyffynnon ward.

**The community of Offa: consequential changes to electoral arrangements**

**16. In the community of Offa—**

- (a) the number of members to be elected for the Hermitage ward is 4;

(b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward  
Offa yw 5.

(b) the number of members to be elected for the  
Offa ward is 5.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
4 Hydref 2021

Minister for Finance and Local Government, one of  
the Welsh Ministers  
4 October 2021



## YR ATODLEN Erthygl 3

### ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER AELODAU'R CYNGOR

**Tabl**

<i>Colofn (1)</i>	<i>Colofn (2)</i>	<i>Colofn (3)</i>	<i>Colofn (4)</i>
<i>Enw Saesneg y ward etholiadol</i>	<i>Enw Cymraeg y ward etholiadol</i>	<i>Ardal y ward etholiadol</i>	<i>Nifer aelodau'r cyngor</i>
Acrefair North	Gogledd Acre-fair	Ward Plas Madog o gymuned Cefn	1
Acton and Maesydre	Gwaunysterfyn a Maes-y-dre	Wardiau Parc Gwaunysterfyn, Canol Gwaunysterfyn, a Maes-y-dre o gymuned Gwaunysterfyn	2
Bangor Is-y-Coed	Bangor-is-y-coed	Cymunedau Bangor-is-y-coed a Willington Worthenbury	1
Borras Park	Parc Borras	Ward Parc Borras o gymuned Gwaunysterfyn	1
Bronington and Hanmer	Bronington a Hanmer	Cymunedau Bronington a Hanmer	1
Brymbo	Brymbo	Wardiau Brymbo a Fron o gymuned Brymbo	2
Bryn Cefn	Bryn Cefn	Ward Bryn Cefn o gymuned Broughton	1
Brynyffynnon	Brynyffynnon	Ward Brynyffynnon o gymuned Offa	1
Cartrefle	Cartrefle	Ward Cartrefle o gymuned Parc Caia	1
Cefn East	Dwyrain Cefn	Wardiau Cefn, a Rhosymedre a Chefn Bychan o gymuned Cefn	1
Cefn West	Gorllewin Cefn	Ward Acre-fair a Phen-y-bryn o gymuned Cefn	1
Chirk North	Gogledd y Waun	Ward Gogledd y Waun o gymuned y Waun	1
Chirk South	De'r Waun	Ward De'r Waun o gymuned y Waun	1
Coedpoeth	Coed-poeth	Cymuned Coed-poeth	2
Dyffryn Ceiriog	Dyffryn Ceiriog	Cymunedau Ceiriog Uchaf, Glyntraean a Llansanffraid Glyn Ceiriog	1
Erddig	Erddig	Ward Erddig o gymuned Offa	1

Esclusham	Esclusham	Wardiau Bers a Rhostyllen o gymuned Esclusham	1
Garden Village	Garden Village	Ward Garden Village o gymuned Rhos-ddu	1
Gresford East and West	Dwyrain a Gorllewin Gresffordd	Wardiau Dwyrain Gresffordd a Gorllewin Gresffordd o gymuned Gresffordd	1
Grosvenor	Grosvenor	Ward Grosvenor o gymuned Rhos-ddu	1
Gwenfro	Gwenfro	Ward Gwenfro o gymuned Broughton	1
Gwersyllt East	Dwyrain Gwersyllt	Ward Dwyrain Gwersyllt o gymuned Gwersyllt	1
Gwersyllt North	Gogledd Gwersyllt	Ward Gogledd Gwersyllt o gymuned Gwersyllt	1
Gwersyllt South	De Gwersyllt	Ward De Gwersyllt o gymuned Gwersyllt	1
Gwersyllt West	Gorllewin Gwersyllt	Ward Gorllewin Gwersyllt o gymuned Gwersyllt	1
Hermitage	Hermitage	Ward Hermitage o gymuned Offa	1
Holt	Holt	Cymunedau Abenbury, Holt ac Is-y-coed	1
Little Acton	Acton Fechan	Ward Acton Fechan o gymuned Gwauntyerfyn	1
Llangollen Rural	Llangollen Wledig	Cymuned Llangollen Wledig	1
Llay	Llai	Cymuned Llai	2
Marchwiel	Marchwiel	Cymuned Marchwiel	1
Marford and Hoseley	Marford a Hoseley	Ward Marford a Hoseley o gymuned Gresffordd	1
Minera	Mwynglawdd	Ward Bwlch-gwyn o gymuned Brymbo, a chymuned Mwynglawdd	1
New Broughton	New Broughton	Wardiau Bryn-teg a New Broughton o gymuned Broughton	1
Offa	Offa	Ward Offa o gymuned Offa	1
Overton and Maelor South	Owrtyn a De Maelor	Cymunedau De Maelor ac Owrtyn	1
Pant and Johnstown	Pant a Johnstown	Wardiau Johnstown a Phant o gymuned Rhosllannerchrugog	2
Penycae	Pen-y-cae	Ward Eitha o gymuned Pen-y-cae	1

Penycae and Ruabon South	Pen-y-cae a De Rhiwabon	Ward y Groes o gymuned Pen-y-cae a ward De Rhiwabon o gymuned Rhiwabon	1
Ponciau	Ponciau	Ward Pentrebychan o gymuned Esclusham a wardiau Gogledd Ponciau a De Ponciau o gymuned Rhosllannerchrugog	1
Queensway	Queensway	Ward Queensway o gymuned Parc Caia	1
Rhos	Rhos	Ward Rhos o gymuned Rhosllannerchrugog a ward Aber-oer o gymuned Esclusham	1
Rhosnesni	Rhosnesni	Ward Rhosnesni o gymuned Gwaunysterfyn	2
Rossett	Yr Orsedd	Cymuned yr Orsedd	2
Ruabon	Rhiwabon	Ward Gogledd Rhiwabon o gymuned Rhiwabon	1
Smithfield	Smithfield	Ward Smithfield o gymuned Parc Caia	1
Stansty	Stansty	Ward Stansty o gymuned Rhos-ddu	1
Whitegate	Whitegate	Ward Whitegate o gymuned Parc Caia	1
Wynnstay	Wynnstay	Ward Wynnstay o gymuned Parc Caia	1

©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE Article 3

NAMES AND AREAS OF ELECTORAL WARDS AND NUMBER OF MEMBERS OF THE COUNCIL

**Table**

<i>Column (1)</i>	<i>Column (2)</i>	<i>Column (3)</i>	<i>Column (4)</i>
<i>English language name of electoral ward</i>	<i>Welsh language name of electoral ward</i>	<i>Area of electoral ward</i>	<i>Number of members of the council</i>
Acrefair North	Gogledd Acre-fair	The Plas Madoc ward of the community of Cefn	1
Acton and Maesydre	Gwauntyerfyn a Maes-y-dre	The Acton Park, Acton Central, and Maesydre wards of the community of Acton	2
Bangor Is-y-Coed	Bangor-is-y-coed	The communities of Bangor Is-y-Coed and Willington Worthenbury	1
Borras Park	Parc Borras	The Borras Park ward of the community of Acton	1
Bronington and Hanmer	Bronington a Hanmer	The communities of Bronington and Hanmer	1
Brymbo	Brymbo	The Brymbo and Vron wards of the community of Brymbo	2
Bryn Cefn	Bryn Cefn	The Bryn Cefn ward of the community of Broughton	1
Brynyffynnon	Brynyffynnon	The Brynyffynnon ward of the community of Offa	1
Cartrefle	Cartrefle	The Cartrefle ward of the community of Caia Park	1
Cefn East	Dwyrain Cefn	The Cefn, and Rhosymedre and Cefn Bychan wards of the community of Cefn	1
Cefn West	Gorllewin Cefn	The Acrefair and Penybryn ward of the community of Cefn	1
Chirk North	Gogledd y Waun	The North ward of the community of Chirk	1
Chirk South	De'r Waun	The South ward of the community of Chirk	1
Coedpoeth	Coed-poeth	The community of Coedpoeth	2

Dyffryn Ceiriog	Dyffryn Ceiriog	The communities of Ceiriog Ucha, Glyntraian and Llansantffraid Glyn Ceiriog	1
Erddig	Erddig	The Erddig ward of the community of Offa	1
Esclusham	Esclusham	The Bersham and Rhostyllen wards of the community of Esclusham	1
Garden Village	Garden Village	The Garden Village ward of the community of Rhosddu	1
Gresford East and West	Dwyrain a Gorllewin Gresffordd	The Gresford East and Gresford West wards of the community of Gresford	1
Grosvenor	Grosvenor	The Grosvenor ward of the community of Rhosddu	1
Gwenfro	Gwenfro	The Gwenfro ward of the community of Broughton	1
Gwersyllt East	Dwyrain Gwersyllt	The East ward of the community of Gwersyllt	1
Gwersyllt North	Gogledd Gwersyllt	The North ward of the community of Gwersyllt	1
Gwersyllt South	De Gwersyllt	The South ward of the community of Gwersyllt	1
Gwersyllt West	Gorllewin Gwersyllt	The West ward of the community of Gwersyllt	1
Hermitage	Hermitage	The Hermitage ward of the community of Offa	1
Holt	Holt	The communities of Abenbury, Holt and Isycoed	1
Little Acton	Acton Fechan	The Little Acton ward of the community of Acton	1
Llangollen Rural	Llangollen Wledig	The community of Llangollen Rural	1
Llay	Llai	The community of Llay	2
Marchwiel	Marchwiel	The community of Marchwiel	1
Marford and Hoseley	Marford a Hoseley	The Marford and Hoseley ward of the community of Gresford	1

Minera	Mwynglawdd	The Bwlchgwyn ward of the community of Brymbo, and the community of Minera	1
New Broughton	New Broughton	The Brynteg and New Broughton wards of the community of Broughton	1
Offa	Offa	The Offa ward of the community of Offa	1
Overton and Maelor South	Owrtyn a De Maelor	The communities of Maelor South and Overton	1
Pant and Johnstown	Pant a Johnstown	The Johnstown and Pant wards of the community of Rhosllanerchrugog	2
Penycae	Pen-y-cae	The Eitha ward of the community of Penycae	1
Penycae and Ruabon South	Pen-y-cae a De Rhiwabon	The Groes ward of the community of Penycae and the South ward of the community of Ruabon	1
Ponciau	Ponciau	The Pentrebychan ward of the community of Esclusham and the Ponciau North and Ponciau South wards of the community of Rhosllanerchrugog	1
Queensway	Queensway	The Queensway ward of the community of Caia Park	1
Rhos	Rhos	The Rhos ward of the community of Rhosllanerchrugog and the Aberoer ward of the community of Esclusham	1
Rhosnesni	Rhosnesni	The Rhosnesni ward of the community of Acton	2
Rossett	Yr Orsedd	The community of Rossett	2
Ruabon	Rhiwabon	The North ward of the community of Ruabon	1
Smithfield	Smithfield	The Smithfield ward of the community of Caia Park	1
Stansty	Stansty	The Stansty ward of the community of Rhosddu	1
Whitegate	Whitegate	The Whitegate ward of the community of Caia Park	1

Wynnstay	Wynnstay	The Wynnstay ward of the community of Caia Park	1
----------	----------	---	---

---

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1113>

ISBN 978-0-348-39128-2



9 780348 391282